PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 2 HYDREF 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jenkins(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Gibson, Philippa Hill-John, Lent a/ac McGarry |

31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Carter, Ebrahim a Goddard.

32 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

33 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

34 : POBL HŶN: MYNEDIAD AT WYBODAETH, CYNGOR A GWASANAETHAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol pobl hŷn. Byddai'n canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn bodloni anghenion gwasanaethau pobl hŷn a sut mae datblygiad strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei alinio ag anghenion cymuned sy'n heneiddio.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau'n cael eu darparu trwy ystod o wahanol sianeli megis yn y cyfryngau, ar wefannau, dros y ffôn, wyneb yn wyneb a bod cyfeirlyfr gwasanaethau cyfredol.

Yng Nghaerdydd mae pedair brif haen er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf sef:

- Cyfeirlyfr gwasanaethau
- Pwynt cyswllt cyntaf
- Gwella gwefan y Cyngor
- Defnyddio'r hybiau i rhoi wybodaeth ac i gyfeirio.

Byddai'r eitem hon yn canolnwyntio ar gynhwysiant digidol ar gyfer pobl hŷn. Byddai'n mynd i'r afael â haenau'r cyfeirlyfr gwasanaethau a'r defnydd o'r hybiau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Susan Elsmore, yr Aeloda Cabinet dros Ofal Cymdeithas, Iechyd a Llesiant, Y Cyng. Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Claire Marchant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau, Helen Evans, Rheolwr Gweithredol Cyngor a Budd-daliadau, Phil Bear, Rheolwr Gwasanaeth TGCh, Sharon Miller, Cydlynydd Rhanbarthol a; Jessica Player, Rheolwr Projectau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r eitem Agenda'n cael ei chyflwyno mewn tair rhan - yn gyntaf, byddai swyddogion o Adnoddau'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o Strategaeth Ddigidol y Cyngor a sut mae'n cael ei halinio ag anghenion pobl hŷ, wedyn byddai swyddogion o Bobl a Chymunedol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd â'r Aelodau trwy waith yr Hybiau a Dewis Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyng. Elsmore i wneud datganiad a dywedodd, fel Hyrwyddwr Pobl Hŷn, yr hoffai atgoffa'r Aelodau am arfer da peidio â defnyddio'r term 'oedrannus' gan mai 'Pobl Hŷn' yw'r term cywir erbyn hyn. Ychwanegodd mai Diwrnod Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig oedd hi heddiw ac roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn yn y byd heddiw. Rhagwelwyd y byddai nifer yr unigolion dros 60 oed yn tyfu gan 46% yn fyd-eang.

Gwahododd y Cadeirydd y Cyn/g Thorne i wneud datganiad a dywedodd mai polisi'r Cyngor yw galluogi pobl o bob oed i gysylltu â'r Cyngor ym mhob ffordd. Cyfeiriodd at y Pasiau Bysus oedd angen eu hadnewyddu erbyn mis Rhagfyr ar wefan Trafnidiaeth Cymru ac roedd llawer o gyswllt wedi bod trwy'r Hybiau i gael cymorth gyda hyn. Hefyd mae wardeniaid mewn llety â chymorth yn rhoi help i bobl hŷn sy'n cael problemau digidol.

Caofdd yr Aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth Ddigidol wedi'i ddilyn gan gyflwyniad ar Hybiau a Dewis Cymru ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Nododd yr Aelodau na chyfeiriwyd at bobl hŷn yn y strategaeth ddigidol. Dywedodd y swyddogion fod y strategaeth i bawb, y gynulleidfa darged gyfan ac nid oedd yn cymryd bod pobl hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio neu ddeall technoleg. Nododd yr Aelodau yr angen i edrych ar y boblogaeth fel cyfanwaith ond nodon nhw fod yr ystadegau a gyflwynwyd yn dangos fod pobl hŷn yn cael eu heithrio'n ddigidol yn fwy.

Gofynnodd yr Aelodau a yw demograffeg yn cael ei ystyried wrth brofi'r strategaeth. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi cwrdd ag elusen yn ddiweddar, gyda phob dyn yn 75+ oed a gyda dim ond traean o'u cymuned nad oeddent wedi'u cysylltu'n ddigidol.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y gwaith wedi'i wneud hyd yn hyn i bobl hŷn a nodon nhw gwerth sydd gan bobl hŷn yn ein cymunedau. Hefyd roedd yr Aelodau'n falch o'r ffaith bod hyfforddiant a chymort har gael i bobl hŷn. Gofynnodd yr Aelodau a oedd nod mewn cof wrth ystyried pobl hŷn. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai ei nod personol hi fyddai cael y rhan fwyaf o bobl hŷn wedi'u cysylltu'n ddigidol. Hefyd ychwanegodd fod gwaith wedi dechrau gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer Caerdydd o Gyfleoedd i'r Henoed.

Nododd yr Aelodau swm mawr o bobl hŷn yn y cymunedau ethnig na allant ddarllen neu ysgrifennu a gofynnon nhw pa help sydd ar gael iddynt. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gwahoddiad wedi'i anfon i Aelod Etholedig BAME ar ddiwedd yr haf. Roedd gwaith bellach y ndechrau i sicrhau bod pobl hŷn BAME yn cael eu cefnogi.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae pobl heb fynediad at gyfrifiaduron yn dod i wybod bod y gwasanaethau hyn yn bodoli. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod bob amser yn ymwneud â chyrraedd pawb. Roedd dulliau amrywiol yn cael eu defnyddio megis llyfrgelloedd, meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, Hybiau, unrhyw un sy'n

cynnal ymweliadau cartref.  Gellir gwneud mwy o ran ragnodi cymdeithasol gan ei bod yn hanfodol bod gwybodaeth ar gael yn y lleoliadau mae pobl yn mynd iddynt amlaf.

Gofynnodd yr Aelodau am y gynulleidfa gritigol wrth ddatblygu strategaeth ddigidol a dywedwyd wrthynt yr ymgysylltwyd â Phanel Dinasyddion Caerdydd, pan roddodd gwirfoddolwyr adborth.  Roedd sampl o 100 o bobl wedi' ddefnyddio wrth ddylunio'r strategaeth.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Hybiau a'r ffaith nad yw'r radiws o'u cwmpas yn gyfartal, fell gallai cael mynediad at hybiau fod yn anodd i rai pobl hŷn.

Trafododd yr Aelodau ddigidol yn awtomataidd a cheision nhw sicrwydd y byddai bob amser llwybrau eraill i bobl o bob oedran nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd. Dywedodd swyddogion eu bod yn edrych ar ganrannau ond y byddai rhwyd diogelwch bob amser ar gael. Nid oedd y sefyllfa'n ddigidol yn awtomataidd eto, byddai'r sefyllfa'n newid wrth i ganrannau newid.  Nodwyd nad yw pob gwasanaeth yn addas i fod yn ddigidol yn awtomataidd.

Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at y newid o ddulliau cyswllt traddodiadol megis galwas ffôn ac roeddent yn bryderus, mewn perthynas ag allgáu cymdeithasol, y gallai galwaday fôn fod yr un sgwrs y caiff rhai pobl hŷn mewn diwrnodau/wythnosau. Esboniodd y swyddogion, yn anffodus, fod angen iddynt wneud mwy am lai, ond cydnabuon nhw ei bod yn drafodaeth fesul gwasanaeth ac na fyddai'r addas i bob gwasanaeth.  Pwysleisiodd y swyddogion nad fyddent yn hunanfodlon ac y byddent yn gwrando ar adborth, ond ychwanegon nhw y gallai technoleg hefyd roi i bobl ffordd o beidio â bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn mynegi arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

35 : DIWEDDARIAD AR SAFONAU DYLUNIO AC ADEILADU TAI'R CYNGOR

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod yn y dyfodol.

36 : RHAGLEN WAITH

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu'r eitemau fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Cytunodd yr Aelodau ar y rhaglen waith ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

37 : DATGANIAD GOHEBIAETH

Nodwyd.

38 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

39 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion ddigwydd ar 6 Tachwedd am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm